Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Ysgol Pob Oed 3-18 / *All Age School 3-18*
YstalyferaUwchradd@ygybd.npt.school, (01639) 842129
YstalyferaCynradd@ygybd.npt.school, (01639) 846900

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr

Pleser yw gallu croesawu pawb yn ôl ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd. Gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd wedi mwynhau gwyliau haf hamddenol ac adfywiol, a braf yw gweld bod ein disgyblion wedi dychwelyd yn barod ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaenau.

Llongyfarchiadau ar Ganlyniadau TGAU a Lefel A Haf 2025

Rydym yn hynod falch o lwyddiannau ein disgyblion a dderbyniodd eu canlyniadau TGAU a Lefel A ym mis Awst. Mae eu llwyddiant yn adlewyrchu nid yn unig eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad, ond hefyd ymroddiad ein staff a chefnogaeth teuluoedd. Llongyfarchiadau cynnes i'r holl ddisgyblion sy'n symud ymlaen i'r chweched dosbarth, prifysgol, prentisiaethau neu waith.

Croeso i Staff Newydd a Staff mewn Rolau Newydd

Wrth i'r flwyddyn ysgol newydd ddechrau, rydym yn falch o groesawu cydweithwyr newydd sy'n ymuno â'n cymuned, yn ogystal â'r rhai sy'n cymryd cyfrifoldebau newydd yn yr ysgol. Yn ymuno gyda ni mae:

Safle Ystalyfera	**Safle Bro Dur**
Mr Richard Jenkins (Ffiseg YGY) Miss Mollie McLaughlin (Dyniaethau YGY) Mrs Shelley Rice (Bioleg YGY) Miss Llio Robinson (Dyniaethau YGY) Miss Carys Llewellyn (Cymraeg/SaesnegYGY) Miss Sophie Gregory (Cynradd YGY) Mr Logan Price (CCD Cynradd YGY) Miss Scarlett Griffiths (CCD Uwchradd YGY) Mr Billy Williams (Technegydd TGCh)	Mme Jeanne Audren de Kedrel (Ffrangeg BD) Mrs Eleanor Gardner (DT BD) Mrs Naomi Griffiths (Cerdd BD) Mrs Angharad Howard (Maths BD) Miss Lowri Whitrow (Cymraeg BD) Mx Alex Williams (Gwyddoniaeth BD) Miss Lowri Phillips (Celf Myn BD) Miss Mali Phillips (CCD BD) Miss Ffion Alcock (Swyddfa BD) Miss Lowri Gleaves (CCD BD)

Rydym yn hyderus y byddant yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i fywyd yr ysgol.

Ein Disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 12 Newydd

Croeso arbennig i'n disgyblion Blwyddyn 7 newydd, sy'n dechrau ar eu taith ysgol uwchradd gyda ni, ac i'n disgyblion Blwyddyn 12 newydd, sy'n ymuno â'r chweched dosbarth. Rydym yn gyffrous i weld yr egni a'r potensial yma, ac edrychwn ymlaen at gael eu cefnogi wrth iddynt ymgartrefu yn eu lleoliad newydd.

Laurel Davies
Pennaeth / Head

Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Ysgol Pob Oed 3-18 / *All Age School 3-18*
YstalyferaUwchradd@ygybd.npt.school, (01639) 842129
YstalyferaCynradd@ygybd.npt.school, (01639) 846900

Rhiant-Lywodraethwyr Newydd
Rydym yn falch o gyhoeddi bod Mr Iestyn Davies a Mr Matthew Davies wedi ymuno â'r Corff Llywodraethu fel rhiant-lywodraethwyr. Rydym yn ddiolchgar iddynt am wirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r ysgol a chynrychioli safbwyntiau rhieni.

Edrych Ymlaen – Safonau a Disgwyliadau
Fel bob amser, byddwn yn parhau i gynnal y safonau a'r disgwyliadau uchel sydd wrth wraidd ein hethos. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwisgo'r wisg ysgol gyda balchder ac yn unol â pholisi'r ysgol.
- Mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon, gan fod presenoldeb cryf yn hanfodol ar gyfer llwyddiant.
- Gweithio'n galed yn y gwersi ac adref, a mynd i'r afael â heriau gyda gwydnwch a phositifrwydd.

Gyda'n gilydd, mae'r disgwyliadau hyn yn sicrhau y gall pob disgybl gyflawni'r gorau posibl.

Calendr a Chefnogaeth
Mae'r tymor hwn yn addo bod yn un prysur yn llawn cyfleoedd, gyda rhaglen lawn o ddigwyddiadau, cyfleoedd a dathliadau o'n blaenau. Cymerwch amser, os gwelwch yn dda, i wirio calendr yr Ysgol (copi ar waelod y llythyr) ar gyfer dyddiadau allweddol, gan gynnwys nosweithiau rhieni, asesiadau a gweithgareddau cyfoethogi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, pryderon neu os oes angen cymorth arnoch ar unrhyw adeg, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd yn parhau i fod wrth galon popeth a wnawn, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn arall lwyddiannus gyda'n gilydd.

Yn ddidwyll

Laurel Davies

Laurel Davies
Pennaeth / Head

Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Ysgol Pob Oed 3-18 / *All Age School 3-18*
YstalyferaUwchradd@ygybd.npt.school, (01639) 842129
YstalyferaCynradd@ygybd.npt.school, (01639) 846900

Dear Parent / Carer

I am delighted to welcome everyone back at the start of a new academic year. I hope that you and your families enjoyed a restful and refreshing summer break, and that students are returning ready for the opportunities and challenges that lie ahead.

Congratulations on Summer GCSE and A Level Results

We are very proud of the achievements of our students who received their GCSE and A Level results in August. Their success reflects not only their commitment and resilience but also the dedication of our staff and the support of families. Warm congratulations go to all students who are moving on to sixth form, university, apprenticeships, or employment.

Welcome to New Staff and Staff in New Roles

At the start of the new school year, we are pleased to welcome new colleagues who are joining our community, as well as those who are taking on new responsibilities within the school. [Insert names and roles]. We know they will make a valuable contribution to the life of our school.

Safle Ystalyfera	Safle Bro Dur
Mr Richard Jenkins (Physics YGY) Miss Mollie McLaughlin (Humanities YGY) Mrs Shelley Rice (Biology YGY) Miss Llio Robinson (Humanities YGY) Miss Carys Llewellyn (Welsh/English YGY) Miss Sophie Gregory (Primary YGY) Mr Logan Price (LSA Primary YGY) Miss Scarlett Griffiths (LSA Secondary YGY) Mr Billy Williams (ICT Technician)	Mme Jeanne Audren de Kedrel (French BD) Mrs Eleanor Gardner (DT BD) Mrs Naomi Griffiths (Music BD) Mrs Angharad Howard (Maths BD) Miss Lowri Whitrow (Welsh BD) Mx Alex Williams (Science BD) Miss Mali Phillips (LSA BD) Miss Ffion Alcock (School Office BD) Miss Lowri Gleaves (LSA BD) Miss Lowri Phillips (Perf Arts)

Our New Year 7 and Year 12 Pupils

A special welcome goes to our new Year 7 pupils, who are beginning their secondary school journey with us, and to our new Year 12 students, who are joining the sixth form. We are excited to see the enthusiasm and potential that they bring, and we look forward to supporting them as they settle into their new routines.

New School Parent Governors

We are pleased to announce that Mr Iestyn Davies and Mr Matthew Davies have joined the Governing Body as parent governors. We are grateful to them for volunteering their time and expertise to support the school and represent the views of parents.

Laurel Davies
Pennaeth / Head

Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Ysgol Pob Oed 3-18 / *All Age School 3-18*
YstalyferaUwchradd@ygybd.npt.school, (01639) 842129
YstalyferaCynradd@ygybd.npt.school, (01639) 846900

Looking Ahead – Standards and Expectations

As ever, we will continue to uphold the high standards and expectations that are central to our ethos. This includes:

- Wearing the school uniform with pride and in full compliance with school policy.
- Attending school regularly and punctually, as strong attendance is vital for success.
- Working hard in lessons and at home and approaching challenges with resilience and positivity.

Together, these expectations ensure that all students can achieve their very best.

Calendar and Support

This term promises to be a busy and rewarding one, with a full programme of events, opportunities, and celebrations ahead. Please do take time to check the school calendar (below) for key dates, including parent evenings, assessments, and enrichment activities.

If you have any questions, concerns, or need support at any point, please do not hesitate to contact us. Working together in partnership with families remains at the heart of everything we do, and we look forward to another successful year ahead.

Yours sincerely

Laurel Davies.

Laurel Davies
Pennaeth / Head

Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Ysgol Pob Oed 3-18 / *All Age School 3-18*
YstalyferaUwchradd@ygybd.npt.school, (01639) 842129
YstalyferaCynradd@ygybd.npt.school, (01639) 846900

Calendar y Tymor/Term 1 Calendar

Llun	1	Medi	HMS 1	
Mawrth	2	Medi	Cynradd, BL7 a 12 yn unig YGY a BL7 – BD	Primary, YR7 and 12 only YGY and YR7 – BD
Mercher	10	Medi	Lluniau Cynradd	Primary Photos
Llun	15	Medi	Profion Cats a Lucid Bl7+10	Cats and Lucid Tests Yr7+10
Gwener	19	Medi	Lluniau 7, 10, 12 Unigol / Blwyddyn YGY	Photos 7, 10, 12 Individual / YGY
Llun	22	Medi	Profion Cats a Lucid Bl7+10	Cats and Lucid Tests Yr7+10
Mawrth	23	Medi	Taith Bl8 - Llanmadog	Yr 8 residential trip Llanmadog
Mercher	24	Medi	Taith Bl8 - Llanmadog	Yr 8 residential trip Llanmadog
Iau	25	Medi	Taith Bl8 - Llanmadog	Yr 8 residential trip Llanmadog
Llun	29	Medi	Profion Cenedlaethol Adran Gynradd	National Tests Primary Department
Iau	2	Hydref	Prosiect Cynradd YGY a Noson Agored Bl.6	YGY Primary Project and Yr.6 Open Evening
Iau	9	Hydref	Noson wyb Bl.10 YGY	Yr.10 YGY information evening
Mercher	15	Hydref	Diwrnod Shwmae Sumae	Shwmae Sumae Day
Iau	16	Hydref	Noson Agored Canolfan Gwenallt	Canolfan Gwenallt Open Evening
Iau	23	Hydref	Adr Int Bl11 YGYBD Noson Ymgartrefu Bl7 YGY	Yr11interim reports YGYBD Yr7 YGY wellbeing evening
Gwener	**24**	**Hydref**	**HMS – dim ysgol i ddisgyblion**	**INSET – no school for pupils**
27/10 – 31/10			*Hanner Tymor*	Half Term

Llun	3	Tachwedd	Tymor yn ail gychwyn	Term restarts
Iau	6	Tachwedd	Noson dargedu Blwyddyn 11 YGY	YGY Year 11 Targeting Evening
Gwener	7	Tachwedd	Adr Int Bl12, 13	12, 13 YGY Interim Reports
Mercher	12	Tachwedd	Rhaglen drosglwyddo Canolfan Gwenallt (Bl.11 YGY)	Canolfan Gwenallt transition programme (Yr.11 YGY)
Gwener	14	Tachwedd	Plant Mewn Angen	Children in Need End of Term
Llun	17	Tachwedd	Noson Rieni CYNRADD	Primary Dept Parent's Evening
Mawrth	18	Tachwedd	Noson Rieni CYNRADD	Primary Dept Parent's Evening
Iau	20	Tachwedd	Adr Int Bl.9 & 10 YGYBD	Yr.9 & 10 Interim Reports YGYBD
Iau	27	Tachwedd	Ffair Nadolig YGY	Christmas Fayre
Iau	4	Rhagfyr	Sioe Nadolig Meithrin N Rieni Bl.9 YGY	Nursery Christmas Show Parents Evening - Yr.9 YGY
Mercher	10	Rhagfyr	Cyngerdd Nadolig Derbyn-Blwyddyn 6	Reception to Year 6 Christmas Concert
Llun	15	Rhagfyr	Wythnos Ffugbrofion Bl.11, 12 a 13	Mock Tests Week Yr.11, 12 & 13
Mercher	17	Rhagfyr	Prynhawn Tystysgrifau TGAU/Lefel A YGY (Caffi'r Graig)	GCSE/A Level Certificate Afternoon (Caffi'r Graig)
Iau	18	Rhagfyr	Adr Int Bl. 7 a 8 YGYBD	Yr. 7 & 8 Interim Reports YGYBD
Gwener	19	Rhagfyr	Diwedd Tymor	End of Term

Laurel Davies
Pennaeth / Head